Catherine Elizabeth McAuley c.1778–1841

Lleian yn yr Eglwys Gatholig Rufeinig a sylfaenydd Sisters of Mercy

Ganwyd Catherine Elizabeth McAuley mae'n debyg, ar 29 Medi 1778, yn Stormanstown House, Dulyn. Roedd yn un o dri phlentyn James, a'i wraig, Elinor. Roedd ei rhieni o blith dosbarth canol ffyniannus Dulyn gan fod ei thad yn bensaer ac yn adeiladydd a'i mam yn ymwneud â masnach feddygol. Roedd y ddau riant yn Gatholigion ymroddedig, a phan fu farw ei thad roedd y teulu yn gyffyrddus eu byd. Fe'i haddysgwyd gartref a phan fu farw ei mam ym 1798 aeth Catherine a'i brawd a'i chwaer i fyw yng nghartref yr apothecari Protestannaidd Armstrong. Yna symudodd Catherine i gartref y meddyg William Callaghan a'i briod, Catherine.

Roedd y Callaghaniaid yn ddi-blant ac fe fagwyd Catherine fel pe bai yn blentyn iddynt hwy. Canolbwynt ei bywyd am yr ugain mlynedd dilynol oedd ei theulu a gweithgareddau elusennol gyda thlodion yng nghyffiniau stad y Callaghaniaid, sef Coolock House, Dulyn. Arddelai ei ffydd trwy fynychu eglwys y Santes Fair, Liffey Street, a daeth i adnabod nifer o offeiriaid blaenllaw yn yr Eglwys Gatholig yn Iwerddon. Daeth yn un o'r ceffylau blaen yn y frwydr yn erbyn tlodi ac roedd ganddi gonsyrn mawr dros freuder bywyd merched ifanc dosbarth gweithiol.

Ym 1819 bu farw Mrs Callaghan a bu farw ei phriod ym 1822. O ganlyniad etifeddodd Catherine gyfoeth mawr. O 1822 ymlaen defnyddiodd ei harian i wireddu syniadau a gafodd flynyddoedd ynghynt.

Sefydlodd Catherine fudiad oedd yn darparu gwasanaethau addysgol, crefyddol a chymdeithasol i fenywod a phlant. Huriodd eiddo yn Baggot Street, Dulyn, ym 1824 ac adeiladu o'r newydd yno. Galwodd yr eiddo yn Tŷ Trugaredd (House of Mercy) ac fe agorodd ym mis Medi 1827 fel ysgol i addysgu merched tlawd a chartref i wragedd a merched digartref. Hefyd mabwysiadodd naw o blant. Gwahoddodd ferched eraill i

gydweithio â hi. Erbyn 1830 roedd 12 yn rhan o'r gymuned ac ychwanegwyd ymweld â'r cleifion fel gweithgarwch ychwanegol. Yr oedd o'r dechrau yn cynnal dyletswydd Gristnogol (defosiwn) a chysegrwyd capel yn y tŷ ym 1829. Ei bwriad oedd cael cymuned leyg ac nid un grefyddol ond ym 1830 newidiodd ei meddwl a sefydlwyd cynulleidfa grefyddol i ferched.

Tyngodd yr aelodau cyntaf o'r Sisters of Mercy eu llwon ar 12 Rhagfyr 1831 a phenodwyd Catherine yn Uchel Fam gan yr Archesgob Murray. Yn ogystal â llwon o dlodi, diweirdeb ac ufudd-dod, cymerwyd pedwerydd llw sef i'w cysegru eu hunain i gynorthwyo'r tlawd, y sâl a'r diniwed. Cymeradwywyd y gynulleidfa gan Rufain ym 1835 ac agorwyd canghennau eraill yn Iwerddon a Lloegr.

Roedd Catherine yn arloeswraig mewn gweithredu cymdeithasol Cristnogol mewn gwledydd Saesneg eu hiaith. Bu farw ar 11 Tachwedd 1841 yn Nhŷ Trugaredd, Baggot Street, a chladdwyd ei gweddillion ym mynwent Baggot Street.